**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges, AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

2 Tachwedd 2017

Annwyl Mike

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Hydref ynglŷn â fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar sut yr ydym yn mynd ati i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Roedd nifer o gwestiynau am yr ymateb hwnnw yn eich llythyr a hoffwn ymhelaethu arnynt.

Rwyf yn fodlon mai'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yw'r fforwm priodol i Lywodraeth Cymru gynnig arweiniad a chyngor a phennu cyfeiriad ar y cyd er mwyn sicrhau bod gennym rwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cael eu rheoli'n briodol yng Nghymru. Y Grŵp Llywio sy'n dod â'r awdurdodau rheoli o bob rhan o Gymru ynghyd i drafod ac i gytuno ar ffyrdd o sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol. Ef hefyd sy'n helpu i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd a fydd, yn y pen draw, yn gwella cyflwr ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd clir i awdurdodau rheoli yn gynharach eleni, pan ysgrifennais atynt i'w hatgoffa pa mor bwysig yw hi eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau statudol i reoli amgylchedd y môr. Yn fwy diweddar, mae fy Adran wedi bod yn gweithio gyda'r Grŵp Llywio i ddatblygu ffordd gydlynol o reoli'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Dyma'r Cynllun Gweithredu ar Flaenoriaethau Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (cyfeiriwyd ato, yn anghywir, fel y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Rheoli'n Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn yr ymateb i argymhelliad arall). Mae'n amlinellu ffordd o weithio lle mae camau rheoli'n targedu mannau y disgwylir iddynt sicrhau'r gwelliant mwyaf i gyflwr nodwedd (neu gynnal y cyflwr hwnnw). Mae cryn bwysau ar adnoddau ar draws y sector cyhoeddus ac mae angen parhau i flaenoriaethu ar adeg pan fo galwadau'n cystadlu â'i gilydd. Yn yr hinsawdd sydd ohoni, ffordd o weithredu sy'n targedu gwariant a gweithgarwch rheoli at y mannau lle y byddant yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar gyflwr nodweddion yw'r ffordd fwyaf priodol a fforddiadwy o sicrhau gwelliannau ar draws ein rhwydwaith o safleoedd. Unwaith y bydd Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol wedi'i sefydlu, bydd fy Adran yn ceisio barn rhanddeiliaid drwy'r Grŵp hwnnw, ac rwyf wedi gofyn i fy Adran anfon copi at y Pwyllgor ar yr un pryd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y dywedais wrth gyflwyno tystiolaeth lafar i'r ymchwiliad hwn, rwyf yn fodlon bod y lefelau staffio o fewn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn briodol ar gyfer cyflawni'n dyletswyddau cadwraeth forol. Mae'n bwysig cydnabod natur drawsffiniol gwaith Is-adran y Môr a Physgodfeydd a gwaith partneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cyfrannu at reoli ardaloedd morol gwarchodedig.

Yn fwy penodol, mae gwaith ein Swyddogion Gorfodi Morol yn amrywiol ei natur ac yn amrywio o ymdrin â mesurau rheoli yr UE a'r DU, megis monitro drwy gyfrwng lloeren, data am ddalfeydd a rheoli ymdrechion ar gychod pysgota, i gymryd camau gorfodi mewn perthynas â gweithgarwch morol trwyddedadwy ac amodau trwyddedau morol. Mae gwaith swyddogion ar lawr gwlad yn cael ei flaenoriaethu a'u cyfeirio at y gweithgareddau hynny sy'n achosi’r risg uchaf ar unrhyw adeg benodol, er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r rhwymedigaethau sydd arni. Mae swyddogion yn ymchwilio'n drwyadl ac os oes angen, yn erlyn y rheini sy'n gweithredu'n groes i'r rheoliadau. Mae gan swyddogion 36 o ymchwiliadau ar waith ar hyn o bryd, a bydd 12 ohonynt yn dod gerbron Llys Ynadon cyn diwedd y flwyddyn.

Rwyf wedi ymrwymo eisoes i gyhoeddi crynodeb o'r prif bwyntiau trafod a chamau gweithredu a fydd yn codi yn ystod y cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys cofnodion y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Llywio, ac am Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn fwy cyffredinol, wedi'i rhoi ar lafar neu'n ysgrifenedig i Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol. Mae'r wybodaeth honno'n cynnwys opsiynau ar gyfer rheoli'n safleoedd fel rhwydwaith, cwblhau'n Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a hynt y gwaith ar brosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru. Yn ystod cyfarfod diweddaraf Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol, cafwyd sesiwn ar waith y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac ar newid ein ffordd o reoli i ddull sy’n seiliedig ar anghenion. Yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol, a fydd yn cael ei gynnal ar 15 Tachwedd, bydd rhanddeiliaid yn cael y cyfle i ddatblygu, i fireinio ac i fanteisio i'r eithaf ar y gweithgareddau a'r cyfleoedd a fydd yn gysylltiedig â Blwyddyn y Môr yn 2018, ac ar y gweithgareddau a'r cyfleoedd a fydd ar gael wedi hynny.

Mae'r angen am grwpiau arbenigol eraill, ac aelodaeth ohonynt, yn cael ei bennu drwy gysylltu a thrafod â rhanddeiliaid. Mae fy Adran yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu cylchoedd gorchwyl a rhaglenni gwaith y grwpiau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas at y diben ac yn sicrhau'r canlyniadau yr ydym i gyd yn gweithio tuag atynt.

Mae'n hanfodol bod data, tystiolaeth ac ymchwil gadarn ar gael i sicrhau bod ein moroedd yn cael eu rheoli'n effeithiol a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy. Rydym yn cydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau sy'n bartneriaid inni ac mae nifer o bartneriaethau sy'n bodoli eisoes yn canolbwyntio ar wyddor môr a thystiolaeth am y môr. Ni fyddwn am ddyblygu strwythurau a fforymau drwy sefydlu partneriaeth gwyddor môr Cymru. Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff cadwraeth y gwledydd eraill, sy'n arwain y gwaith o ddatblygu ffordd gyson, seiliedig ar dystiolaeth, o roi rhaglen ar waith i fonitro bioamrywiaeth forol. Bydd cyfleoedd i gydweithio ag eraill, drwy safonau a rennir, i gasglu ac i grynhoi tystiolaeth a data yn cael eu hystyried wrth i'r rhaglen waith hon fynd rhagddi, gan gynnwys defnyddio cychod cyfle, y diwydiant a gwirfoddolwyr.

Ar lefel Cymru, rydym yn arwain y ffordd drwy baratoi Adroddiadau dangosol ar Gyflwr Safleoedd ar gyfer pob un o'n Hardaloedd Cadwraeth Arbennig a'n Hardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Rwyf yn disgwyl i'r adroddiadau gael eu cyhoeddi tua diwedd y flwyddyn. Mae'n ddyddiau cynnar at brosiect Cyfoeth Naturiol Cymru i baratoi adroddiadau mwy rheolaidd ar gyflwr safleoedd, ond byddaf yn mynd ati'n gyson i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y gwaith hwnnw.

Yn fy natganiad ysgrifenedig yn gynharach eleni ynglŷn â chwblhau'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, amlinellais fy nymuniad i swyddogion a rhanddeiliaid weithio mewn partneriaeth i wneud y gwaith hwnnw. Rwyf yn disgwyl i lawer o'r gwaith hwnnw ddechrau pan drosglwyddir pwerau gwarchod natur ar y môr, ar gyfer parthau cadwraeth morol, ym mis Ebrill 2018.

Mae fy Adran a mi yn parhau i gyfarfod â'r bobl gyfatebol ar draws y DU i drafod materion sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE. Mae swyddogion o bob rhan o'r DU yn cymryd rhan mewn trafodaethau technegol. Rydym yn cael ein cefnogi yn hynny o beth gan y Ford Gron i Randdeiliaid a'i is-grwpiau a sefydlwyd gennyf mewn ymateb i'r ffaith bod y DU yn gadael yr UE.  Byddaf yn mynd ati yn gynnar y flwyddyn nesaf i amlinellu fy ngweledigaeth ar gyfer rheoli Moroedd Cymru ar ôl inni ymadael â'r UE.

O ran y pwynt am gyllid yr UE, hoffwn ddweud unwaith eto mai mater i Lywodraeth y DU yw mynd i'r afael â hynny ac esbonio'r hyn y mae'n mynd i'w wneud i ddod o hyd i'r cyllid a gollir ar ôl inni ymadael â'r UE. Rwyf wedi dweud yn glir nifer o weithiau nad wyf yn disgwyl i Gymru golli unrhyw gyllid o ganlyniad i Brexit.

Cofion



**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs